# YMARFERYDD - ANGHENION CYFATHREBU

| | |
|---|---|
| Mae TGP Cymru yn un o elusennau yng Nghymru, sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed trwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Ariennir gwasanaethau TGP Cymru gan gyllidwyr lluosog ac maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru. | tgp CYMRU PLANT A THEULUOEDD CHILDREN AND FAMILIES |
| **Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau Eiriolaeth | |
| **Yn atebol i:** Uwch Ymarferydd – Pasbortau Cyfathrebu | |
| **Lleoliad:** Oddi gartref- Fodd bynnag, bydd y rôl yn cynnwys teithio helaeth ledled Gogledd Cymru i gwrdd â chleientiaid yn eu cartrefi eu hunain. | |
| **Pwrpas y rôl:**<br>Gweithio gyda'r Uwch Ymarferydd i ddatblygu a darparu Gwasanaeth Pasbort Cyfathrebu TGP Cymru, gan ddarparu Pasbortau Cyfathrebu i blant a phobl ifanc ag anghenion cyfathrebu. | |

**Atebolrwydd/Cyfrifoldebau**

- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i ddatblygu a darparu gwasanaeth sy'n cyd-gynhyrchu Pasbortau Cyfathrebu gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- Cymryd cyfrifoldeb am elfennau a ddirprwyir gan y Rheolwr Tîm
- Paratoi / Annog / Cefnogi / Galluogi plant / pobl ifanc, aelodau o'r teulu a gweithwyr proffesiynol i gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu Pasbortau Cyfathrebu ar gyfer plant a phobl ifanc ag anawsterau cyfathrebu a/neu iaith
- Codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a brwdfrydedd am waith y Gwasanaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i asesu allbynnau'r Gwasanaeth yn erbyn y fframwaith o ddeilliannau y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgaredd a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Cydymffurfio â Chod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru i gynnwys cyllid, adrodd, rheoli data a diogelu
- Hyrwyddo cyfle cyfartal ac ymarfer gwrth-wahaniaethol trwy'r gwaith a wneir yn y swydd
- Rhwydweithio'n briodol gyda chydweithwyr a'r gymuned, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau TGP Cymru ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n ofynnol gan y Sefydliad ac sy'n gyson â gradd.

**Dangosyddion Perfformiad**

- Yn gyfrifol am gyflwyno dangosyddion perfformiad allweddol a safonau ymarfer.
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth yn erbyn safonau a gofynion statudol, rheoleiddiol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau gwasanaeth ac unigol.

**Cyfrifoldeb rheoli llinell (o 22/8/25):**
0

**Cyfrifoldeb rheoli cyllideb (o 22/8/25):**
£0

**Gradd:**
MS2

**Amodau gweithio:**
22.5 awr yr wythnos gydag agwedd hyblyg tuag at yr wythnos waith a fydd yn cynnwys rhywfaint o weithio gyda'r nos ac ar y penwythnos ac yn achlysurol aros oddi cartref dros nos i fynychu cyfarfodydd, cynadleddau neu hyfforddiant.

Mae'n bosibl y bydd angen teithio i wahanol leoliadau ledled Cymru a'r DU hefyd.

**Cymwysterau**

- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol neu ddisgyblaeth gysylltiedig megis Iechyd ac Addysg (dymunol)

**Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau**

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- Cynhyrchu canlyniadau o ansawdd mewn modd amserol sy'n canolbwyntio ar wasanaethau ac wedi ymrwymo i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt
- Gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid a chydnabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefndiroedd eraill
- Cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- Cyfathrebu'n effeithiol h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; yn gwrando'n astud ac yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol

**Gwybodaeth / Profiad**

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a chofnod o gyflawniad yn y canlynol:

| |
|---|
| • Gweithio mewn partneriaeth â phlant / pobl ifanc ag anawsterau cyfathrebu a / neu iaith<br>• Eiriolaeth<br>• Sgiliau cyfathrebu gan ddefnyddio dulliau amgen e.e. MAKATRON, PECSS, Symbolau ac ati<br>• Diogelu |
| **Arall**<br>• Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru bob amser a'u hyrwyddo'n weithredol mewn eraill<br>• Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• Trwydded yrru lawn a mynediad i gludiant (*O dan rai amgylchiadau gellir ystyried ymgeiswyr nad ydynt yn gallu gyrru o ganlyniad i anabledd*.)<br>• Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol) |